**Dr Ruth Hussey OBE**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11 Awst 2015

Annwyl David,

**Deiseb P-04-603 Helpu babanod 22 wythnos oed i oroesi**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf, yn gofyn am ragor o wybodaeth am amserlenni'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd gan y Rhwydwaith Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol.

Mae disgwyl i'r ddogfen Mamolaeth a Newyddenedigol ar y cyd ynghylch gofal i fabanod sydd â siawns o oroesi, gael ei chyflwyno yng nghyfarfodydd y pwyllgorau llywio ar y rhwydwaith mamolaeth a rhwydwaith newyddenedigol ym mis Medi a mis Hydref, a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Llywio Newyddenedigol ar 6 Tachwedd 2015.

Bydd y canllawiau hyn yn seiliedig ar ganllawiau presennol Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain sy'n defnyddio tystiolaeth o ddogfennau meddygol a chonsensws broffesiynol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym hefyd am gael adborth gan rieni a BLISS (elusen sy'n gweithio i ddarparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i bob babi sâl a rhai sy'n cael eu geni'n gynnar a'u teuluoedd), ar y canllawiau a thaflenni gwybodaeth i rieni.

Ar ôl cwrdd â Ms Emma Jones, y deisebydd, ar 18 Chwefror 2015, bydd Dr Heather Payne, Uwch Swyddog Meddygol ar gyfer iechyd mamolaeth ac iechyd plant yn cynnig cyfarfod â Ms Jones eto er mwyn casglu ei sylwadau ar y ddogfen ddrafft. Yna, caiff yr adborth ei gyflwyno i'r Rhwydwaith Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r canllawiau.

Cofion gorau

Ruth Hussey

**PRIF SWYDDOG MEDDYGOL / CYFARWYDDWR MEDDYGOL GIG CYMRU**

cc: William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn/Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
E-bost/Email:ruth.hussey@cymru.gsi.gov.uk